

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mercher, 17 Ebrill 2013

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Alun Davidson
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8639
Pwyllgorac@cymru.gov.uk

Agenda

- 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**
- 2. Polisi dŵr yng Nghymru – Tystiolaeth fideo a gasglwyd gan y tîm allgymorth (09.30 – 10.00)**
- 3. Polisi dŵr yng Nghymru – Tystiolaeth gan Ofwat (10.00 – 11.00)**
(Tudalennau 1 – 21)
E&S(4)-11-13 papur 1

Keith Mason, Uwch Gyfarwyddwr Cyllid a Rhwydweithiau
Steve Roberts–Mee, Materion Corfforaethol
- 4. Papurau i'w nodi** (Tudalennau 22 – 27)
Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7, 13 a 21 Mawrth
- 5. Llythyr gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd – Camau sy'n codi o'r cyfarfod ar 21 Chwefror** (Tudalennau 28 – 39)
E&S(4)-11-13 papur 2
- 6. Nodiadau o gyfarfod gyda BAE (Ymchwiliad polisi dŵr yng Nghymru)** (Tudalennau 40 – 42)
- 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitem 8**

8. Blaenraglen Waith



Polisi Dŵr yng Nghymru: Tystiolaeth i'r Pwyllgor Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Rhagarweiniad

Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Ein prif ddyletswyddau yw:

- gwarchod buddiannau defnyddwyr, lle bynnag bo hynny'n briodol drwy hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol; a
- galluogi cwmnïau dŵr a charthffosiaeth effeithlon i gynnal ac ariannu eu swyddogaethau.

Mae gennym hefyd ystod o ddyletswyddau eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy;
- hyrwyddo darbodusrwydd ac effeithlonrwydd;
- sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu gormodol yn erbyn cwsmeriaid penodol; a
- rhoi ystyriaeth i egwyddorion arfer rheoleiddio gorau.

Rydym yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan fyddwn yn gweithredu polisi dŵr a amlinellir gan Lywodraeth Cymru.

Ers preifateiddio ym 1989 mae ein model rheoleiddiol wedi cynorthwyo'r sectorau dŵr a charthffosiaeth i sicrhau gwelliannau mawr i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd tra'n cadw biliau blynyddol cwsmeriaid £120 yn is nag a fyddent wedi bod fel arall. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddiad gwerth £8 biliwn yng Nghymru, sydd wedi rhoi gwelliannau gwasanaeth mawr i gwsmeriaid dŵr Cymru ynghyd ag amgylchedd dŵr glanach a gwell.

Mae'r sector nawr yn wynebu casgliad gwahanol o heriau o ganlyniad i'r tan-fuddsoddiad cronig a oedd yn broblem mewn preifateiddio. Mae effeithiau newid hinsawdd a newid demograffig, ar adnoddau dŵr yn arbennig, yn ogystal â newid o ran disgwyliadau gan gwsmeriaid, yn golygu ein bod angen dull gwahanol o weithio.

Er bod ein model hanesyddol, cyson o reoleiddio economaidd dros y ddau ddegawd diwethaf wedi ei ddisgrifio fel 'y safon aur' ar gyfer denu ariannu a delio â than-fusoddi yn dilyn preifateiddio, mae peth tystiolaeth nad yw bob amser wedi annog y dulliau mwyaf cynaliadwy gan gwmnïau ac mae'r budd o ran effeithlonrwydd yr ydym wedi eu cael ar gyfer cwsmeriaid ym mhob adolygiad pris wedi lleihau'n araf¹.

Er mwyn bodloni heriau'r dyfodol rydym yn addasu ein model rheoleiddio er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy ac yn parhau i ysgogi gwelliannau effeithlonrwydd yn y cwmnïau er mwyn cadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid. Bydd y fframwaith diwygiedig hwn yn cynnwys defnydd o fentrau newydd.

Rydym yn cefnogi cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno dewisiadau ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl a mwy o fasnachu dŵr camau cyntaf. Mae cyfoeth o dystiolaeth ddamcaniaethol ac empirig sy'n awgrymu bod dulliau seiliedig ar y farchnad yn fwy effeithiol na rheoleiddio er mwyn ysgogi effeithlonrwydd². Yn arbennig, mae mecanweithiau marchnad yn gweithio'n dda mewn dyrannu adnoddau prin mor effeithlon â phosibl – sy'n her allweddol yr ydym yn ei hwynebu o ran adnoddau dŵr – ac annog arloesedd.

Rydym yn cydnabod yn llwyr bod penderfyniadau ynglŷn ag a ddylid cyflwyno mecanweithiau marchnad ai peidio, ac ynglŷn â sut y dylai'r fframwaith deddfwriaethu gael ei sefydlu a'i weithredu, yn gyfrifoldeb ar Gweinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod y rhain yn benderfyniadau arwyddocaol nad sydd heb risg. Felly, croesawn y cyfle i ymateb i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau y gall y penderfyniadau hyn gael eu cefnogi gan y sail dystiolaeth gryfaf.

¹ Yn Future price limits – a consultation on the framework. Appendix 1: draft impact assessment, http://www.ofwat.gov.uk/consultations/pap_con201111fpl_app01.pdf (tud.27), dangosom fod yr enillion effeithlonrwydd cymharol y mae ein model rheoleiddio wedi eu sicrhau i gwsmeriaid wedi bod yn lleihau, ac yn ystod y cyfnod rheoli asedau pum mlynedd diwethaf (AMP 4) rhoddodd ein her effeithlonrwydd enillion werth 1.6% o ran effeithlonrwydd ar gostau gweithredu dŵr ac enillion gwerth 1.5% ar gostau gweithredu carthffosiaeth o gymharu ag enillion gwerth 3.1% ar draws y ddau faes gweithredu costau yn yr AMP blaenorol. Yn yr un modd, roedd effeithlonrwydd gwariant cyfalaf yn 2.4% ar gyfer dŵr yn AMP 4 a 2.7% ar gyfer carthffosiaeth; unwaith eto, mae'r ffigurau hyn yn cymharu â 4.2% ar gyfer dŵr a 6.2% ar gyfer carthffosiaeth yn AMP 3. Mae'r lleihad mewn enillion effeithlonrwydd hefyd yn rhan o'r rheswm am newid dull.

² Gweler fel enghraifft, Office of Fair Trading, Productivity and competition: an OFT perspective on the productivity debate, 2007, http://www.of.gov.uk/shared_of/economic_research/oft887.pdf a Y Zhang, D, Parker and C Kirkpatrick, Assessing the effects of privatisation, competition and regulation on economic performance: the case of electricity sector reform. Adran Economeg, SCAPE, Working Paper Series, 2005 Papur Rhif. 2005/11, <http://ideas.repec.org/p/sca/scaewp/0511.html>

Rydym yn edrych ymlaen at y Strategaeth Ddŵr a gyhoeddir yn fuan gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn adeiladu ar y Datganiad Gweinidogol ar Ddŵr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011.

Asesu goblygiadau'r Mesur Dŵr drafft ar gyfer Cymru, yn arbennig o ran cystadleuaeth yn y farchnad ddibreswyl

Croesawom gyhoeddiad y Mesur Dŵr drafft ym mis Gorffennaf 2012. Rhown sylwadau isod ar ddarpariaethau penodol yn y Mesur drafft. Fodd bynnag, nodwedd allweddol o'r Mesur drafft yn gyffredinol yr ydym yn ei chroesawu yw'r pecyn o newidiadau a fydd yn rhoi dewis i bob cwsmer dibreswyl yn Lloegr. Ar wahân i'r gefnogaeth eang am fwy o ddewis ynglŷn â'u darparwr gwasanaeth ymhlith saith o bob deg cwsmer busnes³, bydd y newidiadau hyn yn galluogi'r sector dŵr i ymateb i'r heriau yr ydym wedi eu hamlygu.

Gan edrych ar brofiad yn yr Alban, bydd y newidiadau yn annog cwsmeriaid dibreswyl i ddefnyddio dŵr yn fwy cynaliadwy a hefyd ysgogi effeithlonrwydd, arloesedd a gwelliannau mewn gwasanaeth cwsmeriaid, gan roi twf economaidd. O'u hystyried gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn cynorthwyo i gefnogi'r canlyniadau cynaliadwy.

Ysgogi defnydd dŵr cynaliadwy

Rydym yn cydnabod safle cyfredol Llywodraeth Cymru o ran polisi a'i bwriad i beidio â chynnwys rhagor o gystadleuaeth i'r farchnad ddŵr a gwastraff dŵr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ein barn ni yw pe bai'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno yng Nghymru byddent yn rhoi ystod o fanteision cadarnhaol i gwsmeriaid Cymru. Un o fanteision allweddol cyflwyno dewis manwerthwr ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl yn yr Alban fu gostyngiad mewn biliau a defnydd dŵr drwy well effeithlonrwydd dŵr.

³ Canlyniadau wedi eu seilio ar ddwy astudiaeth ymchwil a gomisiynwyd gan CCWater ac Ofwat rhwng 2007 a 2010. Seiliwyd ymchwil cwsmeriaid busnesau mawr ar arolygon ffôn gyda 684 o fusnesau mawr yng Nghymru a Lloegr a gynhaliwyd gan MVA ym mis Mehefin 2007. Dangosodd hyn bod 84% yn cefnogi cystadleuaeth mewn egwyddor. Seiliwyd ymchwil busnesau bach a chanolig ar arolygon ffôn a gynhaliwyd gan Accent ym mis Mehefin 2010 gyda 1,515 o fusnesau oedd â llai na 250 o weithwyr. Dangosodd hyn bod 69% yn cefnogi cystadleuaeth mewn egwyddor. Gweler www.cewater.org.uk.

Mae profiad yr Alban yn dangos yn glir bod y manwerthwr unigol, sy'n cystadlu am fusnes cwsmeriaid dibreswyl, yn cael ei annog i gynnig mwy o wasanaethau gwerth ychwanegol a chyingor effeithlonrwydd dŵr nag y byddent wedi ei wneud o dan fodel cwmni dŵr 'ffynhonnell i'r tap' integredig⁴.

Mae astudiaeth o farchnad yr Alban yn awgrymu y bydd busnesau'r Alban erbyn 2020-21⁵ wedi arbed £50-£55 miliwn drwy arbed dŵr, o'i gymharu â lefelau presennol defnydd dŵr. Hefyd, deilliodd ymarfer caffael sector cyhoeddus diweddar ar draws yr Alban ar arbedion cost o hyd at £25 miliwn. Fel rhan o'r ymarferiad cytunodd y cynigydd buddugol i osod technoleg Darllen Mesuryddion Awtomataidd ym mhob safle sector cyhoeddus ar draws yr Alban - gan gefnogi gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd dŵr. Mae cystadleuaeth rhwng manwerthwyr yn rhoi'r fantais o gostau is i fusnesau'r Alban (a fydd yn cynorthwyo i ysgogi twf) a hefyd defnydd mwy cynaliadwy o adnodd gwerthfawr.

Y tu hwnt i ddewis manwerthwr, bydd y diwygiadau camau cyntaf a gynigir yn y Mesur drafft yn eistedd ochr yn ochr â'n cynigion rheoleiddio ni i annog cwmnïau i ddefnyddio cyflenwadau dŵr prin mor effeithlon â phosibl drwy fasnachu rhagor o ddŵr a chreu mwy o ryng-gysylltiad rhwng eu rhwydweithiau. Bydd hyn yn sicrhau gwytnwch yn y dyfodol ac yn osgoi buddsoddiadau cyflenwadau newydd aneffeithlon ac anghynaliadwy lle bynnag y bo hynny'n bosibl⁶.

Bydd y Mesur Dŵr drafft yn sicrhau y gellir ystyried yr **holl** adnoddau dŵr yn rhan o'r dull hirdymor i gyflawni gwytnwch a sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon ar ddŵr yn Lloegr. Bydd y cynigion ar gyfer diwygiadau camau cyntaf yn sicrhau pan fydd gan drydydd parti ddŵr y gellir ei ddefnyddio er mwyn sicrhau gwytnwch cyflenwadau dŵr yn y dyfodol, ac y gall ddarparu'r cyflenwadau hynny yn fwy effeithlon na'r cwmni dŵr presennol, bydd ganddo'r cyfle i wneud hynny. Byddant hefyd yn rhoi dewis ehangach i gwmnïau dŵr ynglŷn â sut a lle i dynnu dŵr o'r amgylchedd er mwyn bodloni galwadau gan eu cwsmeriaid fel rhan o'u cynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Gyda mwy o ddewis o ffynonellau dŵr, gall cwmnïau ddewis y ffynonellau rhataf (gan gadw biliau'n is) a'r rheiny sydd yn fwyaf amgylcheddol gynaliadwy.

⁴ Gweler Grant Thornton, Comisiwn y Diwydiant Dŵr ar gyfer yr Alban: Asesiad Cost a Budd, Mai 2010, <http://www.watercommission.co.uk/UserFiles/Documents/Competition%20report%20-%20final.pdf>

⁵ Ibid

⁶ Ers 1997 mae lefelau masnachu dŵr rhwng cwmnïau yng Nghymru a Lloegr wedi aros yn sefydlog ar 4-5% o'r cyfeintiau. Mae hyn er gwaethaf yr heriau cynyddol o ran prinder dŵr mewn rhai rhannau o Gymru a Lloegr a buddsoddiadau newydd sylweddol o fewn rhwydweithiau cwmnïau. Rydym yn ystyried bod yn rhaid i gwmnïau, er mwyn sicrhau cyflenwadau dŵr cynaliadwy yn y dyfodol, gael eu hannog i edrych y tu hwnt i'w rhanbarthau eu hunain a chreu rhyng-gysylltiad gwell rhwng eu rhwydweithiau eu hunain a rhai cwmnïau cymdogol.

Y dadansoddiad mwyaf cynhwysfawr o effeithiau'r diwygiadau hyn sydd ar gael hyd yma yn Lloegr yw'r asesiad effaith camau cyntaf a gwblhawyd gan Lywodraeth y DU⁷, sy'n awgrymu y gellid cael gwerth tua £2 biliwn o fudd pe byddent yn cael eu cyflwyno. Gan ddefnyddio'r un fethodoleg a'r tybiaethau â'r asesiad effaith, rydym yn cyfrifo pe bai'r diwygiadau hyn yn cael eu hailadrodd yng Nghymru y gallent roi budd net o £87 miliwn dros 30 mlynedd.

Effeithlonrwydd, twf a lleihau beichiau rheoleiddiol

Mae'r Mesur drafft yn cynnig budd y tu hwnt i'r £87 miliwn o effeithlonrwydd o ganlyniad i ddiwygiadau camau cyntaf a hyrwyddo defnydd dŵr mwy cynaliadwy. Byddai cymhwyso'r Mesur Dŵr drafft yng Nghymru, fel bod dewis o ran manwerthwyr ar gael i gwsmeriaid dibreswyl, yn cefnogi effeithlonrwydd a thwf pellach yng Nghymru, drwy:

- well effeithlonrwydd a biliau is;
- arloesedd mewn cyflenwi gwasanaeth; a
- gwasanaethau wedi eu teilwra'n well a'u gwella i gwsmeriaid.

Bydd caniatáu i gwsmeriaid busnes ddewis eu cyflenwr yn rhoi llais llawer cryfach i'r cwsmeriaid hynny ynglŷn â'r math o wasanaeth a phris y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Bydd hyn yn galluogi iddynt reoli eu costau mewnbwn eu hunain ac felly bod yn fwy cystadleuol - gan gynorthwyo i ysgogi twf yn yr economi drwy ddarparu arbedion y gellir eu hail-fuddsoddi mewn busnesau yng Nghymru. Dywedodd adroddiad Policy Exchange yn 2011 y gallai cwsmer gyda 1,400 o safleoedd unigol arbed £80,000-£200,000 drwy dderbyn un bil dŵr a charthffosiaeth integredig gan un cyflenwr yn hytrach na'r 4,000 bil gwahanol y mae'n ei dderbyn ar hyn o bryd⁸.

⁷ Gweler <http://archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/documents/wwp-ia-upstream-1347.pdf> Er bod bob amser anawsterau yn gysylltiedig â darogan effeithiau a chyfleoedd i wella'r dadansoddiad yn y dyfodol, cynhaliwyd proses sicrwydd ansawdd ar y dadansoddiad hwn gan y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio (RPC), a roddodd raddiad 'gwyrd' i'r asesiad effaith, y graddiad uchaf y gall ei roi ac un a geir fel arfer dim ond gan tua 1/3 o'r asesiadau effaith y bydd y RPC yn eu hadolygu.

⁸ Policy Exchange, 2011, Still Hobson's Choice, The case for water retail services market reform in England and Wales, tud.2-3, <http://www.policyexchange.org.uk/images/publications/water%20retail%20services%20competition%20in%20england%20and%20wales%20-%20jul%2011.pdf>

Cynhaliwyd gwahanol astudiaethau i gost a budd cyflwyno dewis o ran manwerthu i gwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru a Lloegr, neu yn Lloegr yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith a gwblhawyd gan adolygiad Cave⁹, Oxera¹⁰, Policy Exchange¹¹, Comisiwn y Diwydiant Dŵr ar gyfer yr Alban¹², Ofwat¹³ a Deloitte¹⁴, ac asesiad effaith manwerthu Llywodraeth y DU¹⁵. Mae'r astudiaethau hyn yn cynnig ystod o ffigurau ar gyfer y costau a budd tebygol o gyflwyno dewis o ran manwerthu i gwsmeriaid dibreswyl, gyda rhai'n rhoi canlyniadau meintiol ac eraill yn edrych ar agweddau penodol o'r achos cost/budd. Fel y mae gyda'r diwygiadau camau cyntaf, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw astudiaethau penodol ar gyfer Cymru.

⁹ Cave, M, Independent Review: of competition and innovation in Water Markets: Interim Report, Tachwedd 2008,

<http://archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/industry/cavereview/documents/cavereview-report.pdf> a Cave, M, Independent Review: of competition and innovation in Water Markets: Adroddiad Terfynol, Ebrill 2009,

<http://archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/industry/cavereview/documents/cavereview-finalreport.pdf>

¹⁰ Oxera, Competition in the Water Sector: a review of the cost-benefit analysis knowledge base, 2011, <http://www.oxera.com/main.aspx?id=9560> gweler hefyd Cave, M, Comment on Oxera report on 'Competition in the water sector: a review of the cost-benefit analysis knowledge base', Ebrill 2011.

¹¹ Policy Exchange, 2011, Still Hobson's Choice, The case for water retail services market reform in England and Wales,

<http://www.policyexchange.org.uk/images/publications/water%20retail%20services%20competition%20in%20england%20and%20wales%20-%20jul%2011.pdf>

¹² Gweler <http://www.watercommission.co.uk/Blogs/post/Costs-and-savings-of-retail-competition.aspx> a hefyd Comisiwn y Diwydiant Dŵr ar gyfer yr Alban, Retail Competition in Scotland: An audit trail of the costs incurred and the savings achieved, 2011,

[http://www.watercommission.co.uk/UserFiles/Documents/WICSAuditTrail\(B\)%20\(2\).pdf](http://www.watercommission.co.uk/UserFiles/Documents/WICSAuditTrail(B)%20(2).pdf)

¹³ Ofwat, Review of the evidence base for retail competition and separation, 2011

¹⁴ Deloitte, Lessons for the water and sewerage industry from retail competition in the utility sector, 2011,

http://www.deloitte.com/view/en_GB/uk/industries/eiu/water/24dca3dd6f90e210VgnVCM2000001b56f00aRCRD.htm

¹⁵ Asesiad effaith Llywodraeth y DU ('Introducing retail competition in the water sector', Llywodraeth EM, 2011, <http://archive.defra.gov.uk/environment/quality/water/documents/wwp-ia-retail-1346.pdf>

Tabl 1 Astudiaethau i ddewis manwerthu dibreswyl a chanlyniadau

Astudiaeth	Canlyniadau	Nodiadau
Aseiad effaith adwerthu adolygiad Cave	Budd gwerth £617 miliwn net (NPV dros 30 mlynedd)	Mae'r canlyniadau yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac wedi eu seilio ar gynigion i wahanu'n gyfreithlon weithgareddau manwerthu. Tystiolaeth wedi ei seilio'n bennaf ar ddefnydd ceidwadol o'r profiad yn yr Alban a gyda data cyfyngedig ar y sail cost manwerthu gwirioneddol.
Deloitte yn gweithio ar ran Water UK	Budd gwerth £1,351 miliwn net (NPV dros 30 mlynedd)	Mae'r canlyniadau yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac wedi eu seilio ar ddefnydd uniongyrchol cynigion adolygiad Cave (yn cynnwys gwahanu manwerthu yn gyfreithlon). Er gwaethaf y canlyniad cyffredinol, mae'r adroddiad yn rhoi peth naratif amheugar ynglŷn â chyflawni rhai o'r manteision a ddyfynnir, yn arbennig budd 'gorlif' i fanwerthu ar gyfer preswylwyr a'r busnes 'cyfanwerthu'.
Comisiwn y Diwydiant Dŵr ar gyfer yr Alban	Budd gwerth £750 miliwn—£2 biliwn net (NPV dros 30 mlynedd)	Mae'r canlyniadau yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn y bôn yn seiliedig ar ddefnydd uniongyrchol profiad yr Alban i Gymru a Lloegr (yn cynnwys gwahanu gwasanaethau manwerthu).
Aseiad Effaith cystadleuaeth manwerthu Llywodraeth y DU	Budd gwerth £190 miliwn net (NPV dros 30 mlynedd)	Mae'r canlyniadau'n cwmpasu Lloegr yn unig ac maent wedi eu seilio ar ddim gwahanu manwerthu o unrhyw fath. Seiliedig ar ystod o dystiolaeth a ffynonellau.
Policy Exchange	D/G	Mae'r canlyniadau wedi eu seilio ar gyfres o astudiaethau achos gyda chwsmeriaid busnes ac adolygiad desg o astudiaethau eraill.
Oxera	D/G	Rhoddir peth trafodaeth feirniadol ynglŷn â dadansoddiad a thybiaethau tanategol adolygiad Cave.

Gyda'i gilydd, mae'r astudiaethau hyn yn awgrymu y gallai canlyniadau net cyflwyno dewis manwerthu ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl roi rhywle rhwng £190 miliwn a £2 biliwn o fudd net. Maent hefyd yn amlygu ystod o risgiau allweddol, megis yr angen i gynnal hyder buddsoddwyr - y mae Llywodraeth y DU wedi ei nodi fel rheswm allweddol dros beidio â datblygu argymhelliad adolygiad Cave i'w gwneud hi'n ofynnol i wahanu gweithrediadau manwerthu cwmnïau dwr.

Gan ddefnyddio'r un dull a'r tybiaethau ag asesiad effaith manwerthu Llywodraeth y DU, sydd ymhlith y darnau mwyaf ceidwadol o ddadansoddiad ac sy'n cwmpasu'r holl astudiaethau a restrir uchod, rydym yn cyfrifo y byddai budd posibl i Gymru o ymestyn dewis cyflenwr i gwsmeriaid busnes yn tua £18 miliwn dros 30 mlynedd¹⁶.

Lle mae dewis yn effeithiol mewn rhoi effeithlonrwydd ar gyfer cwsmeriaid, byddwn hefyd yn gallu rheoleiddio darpariaeth gwasanaethau manwerthu dŵr i fusnesau mewn ffordd llai manwl nag a wnawn ar hyn o bryd a gallem o bosibl ddadreoleiddio'r gweithgareddau hyn yn llwyr ar ryw adeg yn y dyfodol. Bydd hyn yn lleihau baich rheoleiddio ar fusnesau manwerthu presennol y cwmnïau dŵr, gan roi mwy o ryddid iddynt ymateb i'w cwsmeriaid.

Goblygiadau cyffredinol ar gyfer Cymru

Pe bai Llywodraeth Cymru yn gweithredu darpariaethau'r Mesur drafft sy'n rhoi dewis o ran cyflenwr i gwsmeriaid dibreswyl, rydym yn ystyried y byddai hyn yn arwain at fanteision i gwsmeriaid busnes Cymru o'r gwelliannau o ran effeithlonrwydd a gwasanaeth a ddisgrifir uchod, defnydd mwy cynaliadwy ar ddŵr a biliau is.

Rydym yn cydnabod bod hon yn set gymhleth o benderfyniadau sydd â rhywfaint o risgiau ac felly efallai na fydd Llywodraeth Cymru yn dewis cymhwysu'r darpariaethau hyn yng Nghymru. Os felly, byddwn yn parhau i reoleiddio darpariaeth gwasanaethau manwerthu i gwsmeriaid busnes yn wahanol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y cwsmeriaid, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl, yn cael unrhyw fudd a ddaw o newidiadau yn Lloegr. Ni fyddwn yn gallu ysgafnhau'r baich rheoleiddio ar gwmnïau o Gymru oherwydd os na fydd ganddynt ddewis bydd y cwsmeriaid hyn yn parhau i fod angen eu diogelu gan y fframwaith rheoleiddio er mwyn ysgogi effeithlonrwydd mewn cwmnïau yng Nghymru.

Er enghraifft, er mwyn sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn parhau i wella mewn modd sy'n gymharus â chwmnïau Lloegr mae'n debygol y bydd angen i ni gasglu mwy o dystiolaeth gan Dŵr Cymru a Dyffryn Dyfrdwy er mwyn sicrhau y gallem eu cymharu gyda'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y farchnad gystadleuol yn Lloegr. Byddai hon yn gost ychwanegol i'r cwmnïau yng Nghymru a'u cwsmeriaid.

Rydym yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw ymchwil ynglŷn â datblygiad posibl marchnadoedd yn y sector dŵr yng Nghymru.

¹⁶ Adolygwyd yr asesiad effaith hwn hefyd gan yr RPC a derbyniodd raddiad 'oren' (bydd yr RPC yn adolygu pob asesiad effaith a ddaw allan o Lywodraeth y DU a bydd yn rhoi graddiad naill ai 'gwyrd', 'oren' neu 'goch' i bob un ohonynt).

Asesu'r cynnydd a wneir gan Lywodraeth Cymru mewn mynd i'r afael â fforddiadwyedd Dŵr

Cadarnhaodd Ddatganiad Polisi ar Ddŵr Llywodraeth Cymru bod:

“Cadw biliau dŵr ar lefelau fforddiadwy yn flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rydym am i gwsmeriaid gael dewis o opsiynau codi tâl a fydd yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau materion dyled ac yn rhoi budd i'r holl gwsmeriaid tra'n diogelu grwpiau agored i niwed.”

Rydym wedi cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddi lunio'r polisi y mae'n ei ffafrio yn y maes hwn drwy ddarparu canlyniadau ein hymchwil a'n hymchwiliadau i rai o'r dewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â fforddiadwyedd dŵr yng Nghymru.

Bwriadwyd i'r gwaith hwn lywio, asesu a rhoi dewisiadau posibl i'w hystyried gan lunwyr polisi, a gwaith Llywodraeth Cymru yw gwneud penderfyniadau ar y polisiâu priodol i'w mabwysiadu. Amlinellodd becyn tri rhan ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid, a fyddai'n disodli tariff 'Assist' (Dŵr Cymru) a WaterSure (Dyffryn Dyfrdwy), ac un a fyddai'n targedu cefnogaeth yn fwyaf effeithiol ar y cwsmeriaid hynny sydd ei angen fwyaf. Roedd y pecyn hwn yn cynnwys:

- ymgyrch mesuryddion wedi ei thargedu ar gyfer preswylwyr unigol ar fudd-daliadau a/neu greydau treth neu osod cap ar filiau yn seiliedig ar asesiad realistig o ddefnydd ar gyfer cartrefi sy'n amharod i gael mesurydd neu sy'n methu cael un;
- blociau o ddŵr am ddim ar gyfer teuluoedd ar fesurydd sydd ar fudd-daliadau neu fil wedi ei asesu am ddisgownt ar gyfer teuluoedd ar fudd-daliadau sydd ddim ar fesurydd; a
- cap ar fil ar gyfer cwsmeriaid gyda chyflyrau meddygol ar fudd-daliadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddefnyddio mwy na'r cyfartaledd o ddŵr.

Mae'r tri llinyn hwn wedi eu cynllunio i'w darparu fel pecyn cefnogaeth i gwsmeriaid ar fudd-daliadau a (neu) greydau treth. Gyda'i gilydd gallent gryfhau'r negeseuon ar gyfer defnydd effeithlon ar ddŵr, darparu cefnogaeth mewn modd sy'n deg ac sy'n mynd i'r afael â risgiau fforddiadwyedd dŵr.


Rydym yn hapus i rannu'r ymchwil a'r pecyn mesurau hwn gyda'r Pwyllgor.

Edrychwch ymlaen at gyhoeddiad Llywodraeth Cymru o'i ganllawiau tariffau cymdeithasol, y disgwyliwn iddynt roi eglurder polisi yn y maes hwn, a byddwn yn parhau i weithio i weithredu'r polisi hwnnw.

Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod ein fframwaith rheoleiddiol yn helpu i fynd i'r afael â'r her fforddiadwyedd sylweddol yr ydym yn ei hwynebu. Mae lefel y ddyled ddrwg sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sector yn fater fforddiadwyedd allweddol. Bu hon yn broblem gynyddol yn y sector ac rydym yn amcangyfrif bod dyled ddrwg erbyn hyn yn cyfrif am tua £15 ar fil pob cwsmer. Mae gan Dŵr Cymru gostau dyled ddrwg arbennig o uchel o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector¹⁷.

Mae'r graff isod yn dangos y gwahaniaethau rhwng lefelau dyled ddrwg cwmnïau a 'costau i wasanaethu' manwerthu cyffredinol ar gyfer pob cwsmer. Mae gan Dŵr Cymru (sydd wedi ei labelu fel 'WSH') gostau manwerthu sydd yn uwch na chyfartaledd y diwydiant a lefelau cymharol uchel o ddyled ddrwg. Yn ein hymgyngoriad diweddar ar y fethodoleg ar gyfer adolygiad prisiau 2014, gwnaethom gynnig cyflwyno rheolaethau pris ar wahân parthed gwasanaethau cyfanwerthu a manwerthu. Rydym yn ystyried y bydd rheolaeth pris manwerthu ar wahân yn rhoi her gryfach i gwmnïau sydd â chostau dyled ddrwg uchel i fynd i'r afael â hwy a thrwy wneud hyn, cynorthwyo i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd.

Ffigur 1 Manwerthu a dyled ddrwg ar draws y sector¹⁸



¹⁷ Rydym yn nodi y gallai fod rhesymau gwahanol am hyn y tu hwnt i effeithlonrwydd ac mae'r cwmni wedi dadlau bod ei lefel o ddyled ddrwg wedi ei dylanwadu, ymhlith ffactorau eraill, gan y sail cwsmeriaid lleol a lefel yr amddifadedd yn ei ardal.

¹⁸ Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofwat o ddata cost fwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan gwmnïau, wedi eu haddasu i adlewyrchu gwahanol lefelau o dreiddiad o ran mesuryddion.

Gwnaethom ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adolygiad Walker. Gellir gweld ein hymateb ar ein [gwefan](#)¹⁹.

Gwnaethom hefyd ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar dariffau cymdeithasol. Gellir gweld hwn hefyd ar ein [gwefan](#)²⁰.

Casgliad

Pe bai Llywodraeth Cymru yn gweithredu darpariaethau'r Mesur drafft sy'n rhoi dewis o gyflenwr i gwsmeriaid dibreswyl, byddai hyn yn annog defnydd mwy cynaliadwy ar ddŵr a thwf economaidd. Gallai manteision cyflwyno cystadleuaeth manwerthu ddod i gyfanswm o £18 miliwn yng Nghymru dros 30 mlynedd. Pe na ddatblygir y cynigion hyn, er mwyn diogelu cwsmeriaid bydd yn rhaid i ni reoleiddio cwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan neu'n rhannol yng Nghymru mewn ffordd wahanol i sut y byddwn yn rheoleiddio yn Lloegr a gallai hyn roi baich a chostau ychwanegol ar gwmnïau yng Nghymru.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn derbyn y diwygiadau camau cyntaf yng Nghymru, byddai hyn yn ysgogi dyraniad mwy cynaliadwy o adnoddau prin, a rhagor o arloesedd. Gallai'r budd o'r diwygiadau camau cyntaf ddod i gyfanswm o £87 miliwn dros 30 o flynyddoedd.

Mater i Lywodraeth Cymru yw'r penderfyniad a yw am ddatblygu'r darpariaethau yn y Mesur Dŵr drafft. Rydym ni wedi ymrwymo i barhau i ddiogelu cwsmeriaid yng Nghymru, a sicrhau bod y cwmnïau dŵr yng Nghymru yn gwella eu gwasanaethau iddynt.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn i gefnogi ei gwaith mewn mynd i'r afael â fforddiadwyedd dŵr, sy'n cynnwys system mesuryddion wedi ei thargedu, blociau o ddŵr am ddim a chap ar filiau ar gyfer rhai grwpiau cwsmeriaid. Edrychwn ymlaen at gyhoeddiad ei chanllawiau tariff cymdeithasol.

Ofwat
Mawrth 2013

¹⁹ Gweler http://www.ofwat.gov.uk/regulating/charges/res_ofw20110704wgdwalker.pdf

²⁰ Gweler http://www.ofwat.gov.uk/future/customers/metering/affordability/res_ofw201102wagsocial.pdf

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: **Dydd Iau, 7 Mawrth 2013**

Amser: **09:30 - 15:05**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_07_03_2013&t=0&l=cy

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500000_07_03_2013&t=0&l=cy

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Keith Davies
Russell George
Vaughan Gething
Llyr Huws Gruffydd
William Powell
David Rees
Antoinette Sandbach

Tystion:

Prof Kevin Anderson, Canolfan Tyndall
Tony Bosworth, Cyfeillion y Ddaear
Dr John Broderick, Canolfan Tyndall
Gareth Clubb, Cyfeillion y Ddaear Cymru
Dr Shaun Lavis, Clean Coal Limited
Naomi Ludhe-Thompson, Cyfeillion y Ddaear
Professor Peter Matthews, Cyfoeth Naturiol Cymru
Dr Emyr Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru
Gerwyn Williams, UK Onshore Gas Limited

Staff y Pwyllgor:

Alun Davidson (Clerc)
Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)
Graham Winter (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

[Trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Tudalen 22

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James. Nid oedd neb yn dirprwyo.

2. Nwy siâl a nweiddio – tystiolaeth gan UK Onshore Gas Limited

2.1 Bu Gerwyn Williams yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor a chytunodd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Pwyllgor.

3. Nwy siâl a nweiddio – tystiolaeth gan UCG Association a Clean Coal Limited

3.1 Bu Shaun Lavis yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4. Cyfoeth Naturiol Cymru

4.1 Bu Peter Matthews ac Emyr Roberts yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor a chytunodd y ddau i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Pwyllgor.

5. Nwy siâl a nweiddio – tystiolaeth gan Ganolfan Tyndall

5.1 Penderfynodd y Pwyllgor dorri Rheol Sefydlog 17.45 gan fod problemau technegol gyda'r cyfieithu yn golygu na fyddai modd cynnal y sesiwn dros gynhadledd fideo yn Gymraeg.

5.2 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

6. Nwy siâl a nweiddio – tystiolaeth gan Cyfeillion y Ddaear

6.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor a chytunwyd y byddent yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Pwyllgor.

7. Papurau i'w nodi

7.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror.

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 13 Mawrth 2013**

Amser: **09:30 – 12:06**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_13_03_2013&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Keith Davies
Russell George
Vaughan Gething
Llyr Huws Gruffydd
William Powell
David Rees
Antoinette Sandbach

Tystion:

Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol
Adrian Green, Llywodraeth Cymru
Huw Jones, Llywodraeth Cymru
Yr Athro Martin Cave

Staff y Pwyllgor:

Alun Davidson (Clerc)
Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)
Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)
Graham Winter (Ymchwilydd)
Nia Seaton (Ymchwilydd)
Elfyn Henderson (Ymchwilydd)
Caitlin Pearson (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

[Trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James.

2. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal eitem 3 mewn sesiwn breifat.

3. Bil Rheoli Cŵn (Cymru) – Sesiwn friffio technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

3.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar y Bil Rheoli Cŵn (Cymru) arfaethedig gan y Prif Swyddog Milfeddygol a swyddogion o Lywodraeth Cymru.

4. Polisi dŵr yng Nghymru – gwybodaeth gefndirol

4.1 Trafododd y Pwyllgor y gystadleuaeth o fewn y diwydiant dŵr gyda'r Athro Martin Cave.

5. Papurau i'w nodi

5.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2013.

Environment and Sustainability Committee

Meeting Venue: **Committee Room 3 – Senedd**

Meeting date: **Thursday, 21 March 2013**

Meeting time: **09:30 – 12:25**

This meeting can be viewed on Senedd TV at:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_21_03_2013&t=0&l=en

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Concise Minutes:

Assembly Members:

**Mick Antoniw
Keith Davies
Russell George
Vaughan Gething
Llyr Huws Gruffydd
William Powell (Chair)
David Rees**

Witnesses:

**Nigel Annett, Managing Director, Dŵr Cymru
Mike Davis, Dŵr Cymru
Andrew Fairburn, Severn Trent Water
Diane McCrea, Consumer Council for Water
Tony Smith, Consumer Council for Water**

Committee Staff:

**Alun Davidson (Clerk)
Catherine Hunt (Clerk)
Mike Lewis (Deputy Clerk)**

TRANSCRIPT

View the [meeting transcript](#).

1. Motion under Standing Order 17.22 to elect temporary Chair

1.1 William Powell was elected as temporary Chair.

2. Introductions, apologies and substitutions

1.1 Apologies were received from Dafydd Elis-Thomas, Julie James and Antoinette Sandbach.

3. Water policy in Wales – Evidence from Dŵr Cymru

3.1 The witnesses responded to questions from members of the Committee and agreed to provide additional information as requested.

4. Water policy in Wales – Evidence from Severn Trent Water

4.1 Andrew Fairburn responded to questions from members of the Committee.

5. Water policy in Wales – Evidence from Consumer Council for Water

5.1 The witnesses responded to questions from members of the Committee.

6. Motion under Standing Order 17.42(vi) to exclude the public from the meeting for item 6

6.1 The Committee agreed the Motion.

7. Forward work programme

7.1 The Committee discussed the forward work programme.

Eitem 5

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF-JG-0399-13

Lord Dafydd Elis-Thomas AM
Chair
Environment and Sustainability
Committee

27 March 2013

Alun Davies

SCRUTINY SESSION OF 21 FEBRUARY 2013

I write in response to your letter of 4 March to the then Minister for Environment and Sustainable Development, which requested further information following his appearance before your Committee on 21 February.

As you know, earlier this month I was delighted to accept the post of Minister for Natural Resources and Food and I am pleased to attach, as an annex, responses to each of the questions raised in your letter.

I have written to you separately concerning your request for further information following my appearance before the Committee as then Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes on the same day.

I look forward to working closely with your Committee.

Alun Davies

Alun Davies AC / AM
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd
Minister for Natural Resources and Food

Natural Resources Wales (NRW)

We would appreciate a summary of the differences between the original Business Case figures and the updated business case costings that are to be agreed with the Natural Resources Wales executive on 1 April 2013. In doing so, can you please set out the following:

- Costs, benefits and net benefits;
- The impact of the pensions decision in terms of costs, benefits and net benefits; and
- The impact of the re-profiling of IT spend decision in terms of costs, benefits and net benefits.

Minister for Natural Resources and Food:

- The new information does not compromise the conclusions of the business case. Benefit after cost remains very positive, and the choice of options is unaffected. However, my officials and NRW staff are working to update the baseline that NRW will work to, taking account of the most up to date information. This work is unlikely to conclude before 1 April, largely because the staff concerned are focussed on ensuring successful delivery of NRW operations on vesting day. I understand that my predecessor has discussed this matter with you and I shall be happy to provide a finalised set of figures and supporting narrative to you and your Committee at the earliest opportunity after that date.

During the session, you told us that that NRW will need to exit support from the UK Environment Agency (EA) and Forestry Commission (FC) earlier than anticipated in the business case. We would appreciate more information on:

- The reasons for this change;
- Whether there is a link between this and the decision to re-profile IT investment;
- Details of any other impact this has on the business case figures; and
- An updated timeline for exiting support from the UK bodies.

Minister for Natural Resources and Food:

- Firstly, as a point of clarification, the earlier exit from IT support refers to the EA, rather than FC. Exit from FC systems will progress over a similar time period to that originally envisaged.
